Adroddiad ar

# Feithrinfa Seren Fach

Brithdir
Dolgellau
Gwynedd
LL40 2RW

Dyddiad yr arolygiad:  Mawrth 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Meithrinfa Seren Fach

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Meithrinfa Seren Fach |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw’n berthnasol) | Carwyn Siddall |
| Person â gofal | Eleri Jones |
| Nifer y lleoedd | 42 |
| Ystod oedran y plant | 3 mis i 8 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 16 |
| Nifer y plant sy’n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 8 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Iau, 07:30 – 18:00 a Dydd Gwener, 07:30 – 17:30 |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw’r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma’r arolygiad cyntaf ers ailgofrestru fel Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE). |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 22/03/2018 |
| Dyddiadau’r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 24/03/2026 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn hyrwyddo annibyniaeth y plant drwy beidio â gor-arwain eu profiadau dysgu

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i blant ddatrys problemau yn annibynnol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae bron bob un plentyn yn hapus, ac yn mwynhau cwmni eu ffrindiau a'r ymarferwyr wrth gymdeithasu â'i gilydd. Maent yn gwneud dewisiadau'n hyderus ac yn mwynhau'r rhyddid i symud o amgylch yr ardaloedd dysgu. Er enghraifft, maent yn gwneud dewisiadau rhydd ynglŷn â pha ardal chwarae maent yn dymuno chwarae a dysgu ynddi. Mae bron bob plentyn yn ymuno â grwpiau o ffrindiau yn ôl eu dewis ac yn helpu eu hunain i adnoddau yn fedrus. Maent yn mwynhau arbrofi gyda thoes, ymolchi creaduriaid y môr yn y twb dŵr neu beintio yn yr ardal grefft. Maent yn gyfforddus i ofyn am gymorth wrth wisgo ffedog, neu ofyn i ymarferwyr am wahanol liwiau paent.

Mae bron bob plentyn yn setlo'n gyflym ac yn ymgartrefu'n hapus. Maent yn ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni ac yn teimlo'n ddiogel a chartrefol. Er enghraifft, maent yn hyderus i alw enwau'r ymarferwyr, fel y bo angen, ac yn dangos bod ganddynt ymdeimlad o berthyn. Mae llawer o blant yn gyfarwydd ag arferion y dydd ac yn deall bod amserlen a strwythur yn caniatáu iddynt ddysgu a chwarae. Maent yn ymwybodol o drefniadau amser byrbryd a phryd i eistedd ar y mat am amser cylch, sy'n creu teimlad o sicrwydd iddynt. Maent yn cael boddhad wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o'u hunaniaeth, fel trafod eu teuluoedd a sgwrsio'n fyrlymus tra'n chwarae gyda ffonau symudol.

Mae llawer o blant yn rhyngweithio'n dda ac yn datblygu medrau cymdeithasol cadarn. Maent yn mwynhau cwmni ffrindiau ac yn dysgu sut i gymryd tro. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, mae plant wrth eu bodd yn cael bwyta gyda'u ffrindiau o amgylch y bwrdd. Maent yn arsylwi ar ei gilydd wrth ddysgu gweini eu bwyd ac wrth arllwys llaeth i'w cwpanau. Maent yn gwenu a chwerthin wrth iddynt gwblhau tasgau ac yn ymfalchïo yn llwyddiant eu ffrindiau. Mae llawer o blant yn cefnogi ei gilydd yn effeithiol wrth gynnig tro i blant arall wrth chwarae yn y twb dŵr, ac wrth esbonio i'w gilydd bod angen gwisgo ffedogau gan ddangos ble i ddarganfod y gwisgoedd. Mae bron bob un plentyn yn datblygu perthnasoedd cynnes â'r ymarferwyr ac yn rhyngweithio'n dda ag ymwelwyr.

Mae llawer o blant yn frwdfrydig ac yn dyfalbarhau'n fwriadus wrth ddysgu. Maent yn hyderus i arbrofi ac yn mwynhau meistroli cyfarpar fel rholbren i rolio'r toes i greu cacen mefus. O ganlyniad, mae'r plant yn awyddus i geisio eto a datblygu eu medrau. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol da, er enghraifft wrth fynd i'r tŷ bach, golchi a sychu eu dwylo heb gymorth, gweini bwyd neu baratoi i chwarae tu allan.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae pob ymarferydd yn deall eu cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn blaenoriaethu eu hiechyd a'u diogelwch yn llwyddiannus. Mae gan bob ymarferydd ddealltwriaeth glir o'r polisi diogelu ac maent yn cwblhau hyfforddiant diogelu plant priodol yn rheolaidd. Maent yn mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf perthnasol, yn cadw cofnodion cywir o ddamweiniau a digwyddiadau, ac yn deall y gweithdrefnau ar gyfer darparu meddyginiaeth. Mae ymarferwyr yn annog plant i fwynhau bwydydd iach ac yn sicrhau eu bod yn dilyn arferion cadarn wrth ddosbarthu byrbrydau a chinio. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant ag alergeddau ac yn cwblhau prosesau cofrestru manwl a threfnus i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o anghenion unigol pob plentyn, gan gynnwys cofnodion caniatâd.

Mae systemau cefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn dda, ac maent yn gweithio gyda chyrff allanol a gweithwyr proffesiynol, lle bo angen, i gefnogi plant a'u teuluoedd. Mae ymarferwyr yn dilyn arferion hylendid cadarn, er enghraifft wrth annog plant i olchi eu dwylo'n rheolaidd a dilyn prosesau cadarn wrth newid cewynnau. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae pob ymarferydd yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn eu trin gyda gofal a pharch. Mae ganddynt berthynas garedig â'r plant ac yn modelu rhyngweithio cadarnhaol yn gyson mewn moddau diffuant. Mae ymarferwyr yn ofalgar ac yn cydnabod pryd mae angen cymorth ar y plant, fel wrth wisgo, defnyddio adnoddau penodol neu i awgrymu syniadau pellach tra'n rhyngweithio. Maent yn frwdfrydig ac yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i atgyfnerthu medrau cymdeithasol cadarnhaol drwy ddefnyddio canmoliaeth gynnes a chyson. Mae pob ymarferydd yn fodelau rôl cadarnhaol, ac maent yn annog plant i drin ei gilydd yn garedig.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o ddatblygiad, anghenion a dymuniadau unigol plant. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i gefnogi diddordebau a medrau unigol plant. Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd creadigol i ymestyn profiadau a medrau plant a chymryd sylw o'u syniadau a'u gofynion. Maent wrth law i gynnig cefnogaeth, pan fo angen. Maent yn defnyddio adnoddau o safon uchel ac yn cynllunio'n ofalus i gyflwyno gweithgareddau diddorol ac ysgogol ar gyfer datblygiad pellach y plant a'u hanghenion unigol.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu a gweithgareddau chwarae diddorol. Maent yn annog y plant i gydweithio a chyfathrebu'n gyson â'i gilydd, sy'n cael effaith dda ar eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Er enghraifft, maent yn cefnogi'r plant yn synhwyrol i drin gwallt ei gilydd ac ymarferwyr tra'n chwarae rôl ac maent yn eu herio i greu patrymau lliwgar gyda phaent a sialc.

Mae gan ymarferwyr agweddau cadarnhaol, sy'n ysgogi dysgu'r plant yn effeithiol. Ar y cyfan, mae eu dulliau addysgu yn gadarn ac maent yn annog y plant i gydweithredu'n frwdfrydig a datblygu ystod eang o fedrau'n ddeallus ar draws y meysydd dysgu. Er hyn, ar adegau, mae ymarferwyr yn dueddol o or-arwain y plant, sy'n llesteirio eu hannibyniaeth.

Mae ymarferwyr yn ymyrryd yn gyson yn ystod gweithgareddau ac maent yn ceisio cymell y plant i arbrofi wrth chwarae. Maent yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda'r plant ar sut i lwyddo yn ystod eu tasgau, fel sut i ddefnyddio fflachlampau ac i gymharu disgleirdeb y goleuadau. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i blant ddatrys problemau yn gwbl annibynnol, heb oruchwyliaeth oedolyn.

Mae ymarferwyr yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n cynnwys cydweithio synhwyrol ymysg ei gilydd a pharodrwydd i ddilyn diddordebau ac awgrymiadau'r plant. Maent yn cyd-gynllunio'n effeithiol i ymestyn dysgu'r plant trwy amrywiaeth o brofiadau ymarferol, fel creu patrymau gyda mwclis yn y toes a llenwi blychau gyda phipedau. Maent yn arsylwi ar blant ac yn trafod eu cynnydd yn fwriadus er mwyn adnabod y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd effeithiol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chymwyseddau digidol y plant. Maent yn ymestyn dealltwriaeth y plant yn ystod y sesiynau trwy eu holi'n effeithiol a'u cymell i esbonio eu gweithredoedd yn synhwyrol. Maent yn gwneud hyn wrth iddynt ddisgrifio hyd a maint darnau pren yn yr ardal adeiladu, pwyso cerrig mân a phridd gyda chlorian, ac wrth reoli ceir electronig yn hyderus. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn annog y plant i gydbwyso'n ofalus wrth ddringo cyfarpar anturus a defnyddio bandiau rwber yn ddestlus i greu patrymau lliwgar rhwng pegiau. Maent yn darparu gweithgareddau creadigol diddorol, fel creu rhythmau gwahanol gydag offer taro a chwarae rôl wrth osod doliau i gysgu mewn cawell.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn dda. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru'n effeithlon trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a hanes Santes Dwynwen a chyfrannu i'r eisteddfod leol. Mae ymarferwyr yn dathlu amrywiaeth yn synhwyrol ac yn sôn am wyliau arbennig gwahanol grefyddau yn rheolaidd. Yn ogystal,

maent yn codi ymwybyddiaeth y plant o'u cynefin yn bwrpasol trwy astudio nodweddion a chyfleusterau'r ardal leol a chanu hwiangerddi a rhigymau traddodiadol.

### Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant trwy ddarparu gweithdrefnau sy'n sicrhau bod unrhyw beryglon yn cael eu hadnabod, eu monitro a'u rheoli'n effeithiol. Maent yn llunio asesiadau risg trylwyr sy'n amlinellu peryglon posibl a'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant. Maent hefyd yn gwirio'r dogfennau hyn yn gyson, ac yn cwblhau asesiadau ychwanegol ar gyfer unrhyw weithgareddau newydd. Mae'r ymarferwyr yn cwblhau gwiriadau dyddiol o'r ardaloedd chwarae, teganau ac adnoddau ac yn cadw cofnod o unrhyw gamau pellach sydd angen eu dilyn yn effeithiol.

Mae'r arweinwyr yn ymateb yn brydlon i faterion yn gysylltiedig â diogelwch y plant ac i unrhyw achos sy'n codi. Er enghraifft, maent yn monitro ac ymarfer driliau tân yn gyson er mwyn sicrhau bod y plant yn gyfarwydd â'r trefniadau i'w dilyn pe bai rheswm iddynt adael yr adeilad ar frys. Mae'r adeilad yn cael ei gynnal yn dda ac mae'r gwiriadau diogelwch yn cael eu cwblhau'n rheolaidd. Mae'r ymarferwyr yn wyliadwrus wrth orchwylio plant yn ofalus er mwyn sicrhau eu diogelwch y tu mewn a thu allan ac ar deithiau o gwmpas yr ardal leol.

Mae'r ystafell chwarae yn gyfforddus a chysurus ac mae digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael ymdeimlad o berthyn trwy arddangos esiamplau o'u gwaith ar y waliau, gan gynnwys lluniau o deuluoedd ac esiamplau o waith creadigol y plant. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod yr ystafelloedd chwarae yn cynnig ystod eang o weithgareddau ac adnoddau ysgogol a chyffrous sy'n cyfoethogi profiadau'r plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, ceir ardal beintio, llyfrau darllen, ardaloedd marcio a chwarae toes. Mae'r ardaloedd hyn yn ysgogi plant i ddefnyddio'u dychymyg yn bwrpasol. Mae'r ardal tu allan yn gaeedig ac yn cynnig profiadau chwarae diddorol yn y gegin fwd, twbâu tywod a dŵr. Yn ogystal â hyn, maent yn defnyddio ardal laswelltog estynedig i ddatblygu medrau corfforol y plant yn fwriadus.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ystod eang o adnoddau yn lân ac o ansawdd da. Maent yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae arweinwyr yn darparu ystod effeithiol o adnoddau 'go iawn'. Er enghraifft, mae'r plant yn chwarae gyda llestri ac offer coginio yn y gegin fwd ac yn esgus siarad ar y ffôn gyda'u ffrindiau yn hyderus.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan arweinwyr weledigaeth gadarn ac maent yn cydweithio'n dda i hyrwyddo gofal a chefnogi dysgu'r plant. Maent yn canolbwyntio'n glir ar ddatblygu'r ddarpariaeth ynghyd â medrau a lles y plant. O ganlyniad, mae eu harferion rheolaidd a'u hagweddau cadarnhaol yn creu amgylchedd diddorol sy'n darparu profiadau da i'r plant.

Mae arweinwyr yn darparu gofal diwyd yn ystod y sesiynau, sy'n creu ymdeimlad agos rhwng yr ymarferwyr a'r plant. Mae'r awyrgylch gofalgar hwn yn annog plant i gydweithio'n dda a dyfalbarhau wrth chwarae a dysgu mewn awyrgylch glòs, gynhaliol a Chymreig. Yn ogystal, mae arweinwyr yn cynnal trafodaethau rheolaidd â'r rhieni a gofalwyr am ddatblygiad a chyflawniad eu plant. Defnyddiant ymweliadau cychwynnol, cyfryngau cymdeithasol diogel, adroddiadau tymhorol a llyfrynnau cynnydd yn ystyrlon i ddarparu gwybodaeth berthnasol iddynt.

Mae arweinwyr yn cydweithio'n gydwybodol fel tîm ac yn sicrhau bod pawb yn mynychu hyfforddiant defnyddiol i wella'u haddysgu a'u systemau gofal. Maent yn cadw cofrestrau plant ac ymarferwyr, ac yn sicrhau bod cymarebau ymarferwyr i blant yn gywir ar bob adeg. Mae arweinwyr yn sicrhau bod dogfennau statudol, polisïau ac arferion y lleoliad yn cael eu hadnewyddu'n flynyddol. Mae'r Datganiad o Ddiben yn gywir ac yn adlewyrchu'r gwasanaeth yn gywir. Maent yn sicrhau bod y prosesau ar gyfer goruchwylio, gwerthuso ac arfarnu gwaith a datblygiad yr holl ymarferwyr yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n dda ar gyflwyno gwelliannau cyson er mwyn datblygu arferion y lleoliad ymhellach. Maent yn cynnal gweithdrefnau hunanwerthuso defnyddiol, sy'n arwain at dargedau perthnasol ar gyfer gwelliant. O ganlyniad, maent yn adnabod cryfderau'r lleoliad a'r materion sydd angen sylw yn dda. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi canolbwyntio'n ddiweddar ar ddatblygu arbenigedd ymarferwyr i asesu'n gywrain a thargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol yn gywir.

Mae arweinwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farn pawb sy'n ymwneud â'r lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau buddiol â'r holl randdeiliaid i wella'r ddarpariaeth a phrofiadau'r plant, ac yn gweithredu ar awgrymiadau swyddogion yr asiantaethau cefnogi. Yn sgîl hyn, maent yn llwyddo i ddarparu profiadau amrywiol i blant ddatblygu eu medrau cymdeithasol ac i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd tra'n edrych ar lyfrau, trafod straeon a dysgu am siapiau, rhifau a chyfaint.

Mae gan yr arweinwyr berthynas dda ag ysgolion yr ardal leol ac mae hyn yn paratoi'r plant ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn bwrpasol. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o'u cynefin yn dda, ac maent yn defnyddio'r ardal gyfagos yn bwrpasol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr a'r plant yn ymweld â rhaeadrau cyfagos a mynd am deithiau rheolaidd o gwmpas y pentref i gyfoethogi dysgu'r plant. Yn

ogystal, mae arweinwyr yn gwahodd swyddogion o’r gwasanaethau brys i’r lleoliad i ymestyn dealltwriaeth y plant o rolau pobl yn eu cymuned.

Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel ac yn dyrannu adnoddau’n synhwyrol. Maent yn defnyddio’r gyllideb a grantiau yn ofalus ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau’r lleoliad yn ddoeth. Yn ogystal, maent yn cyllido adnoddau amrywiol yn fwriadus, fel deunyddiau i ddatblygu medrau creadigol a chorfforol y plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/06/2026